**COD YMDDYGIAD**
**TEITHIO CYMRU**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# CANLLAW I RIENI

**I'r rhan fwyaf o ddysgwyr mae eu siwrneiau rhwng y cartref a'r ysgol yn mynd rhagddynt heb ddigwyddiad na phryder. Yn anffodus caiff rhai siwrneiau eu difetha gan ymddygiad gwael, ymddygiad sy'n tarfu ar eraill ac ymddygiad annerbyniol a all effeithio ar ddysgwyr a'r cyhoedd. Gall hyn fod yn fygythiad go iawn i ddiogelwch a gall ddwyn canlyniadau trasig.**

Cod statudol sy'n nodi'r safonau ymddygiad y mae'n ofynnol i ddysgwyr eu cyrraedd ac sydd o ganlyniad yn hybu'r nod o ddiogelu dysgwyr yw'r Cod Ymddygiad wrth Deithio ('y Cod').

Mae'r Cod yn berthnasol i'r holl ddysgwyr hyd at 19 oed ac mae'n berthnasol i bob math o deithio i ac o'r ysgol neu'r coleg, pa un a yw'r trefniadau teithio'n cael eu gwneud gan awdurdod lleol ai peidio. Mae hyn yn cynnwys bysiau dan gontract, bysiau cyhoeddus, trenau cyhoeddus, cerdded, tacsis, sgwteri a beiciau modur, beicio a siwrneiau mewn ceir. Mae hefyd yn cynnwys siwrneiau rhwng ysgolion yn ystod y dydd, nid dim ond ar ddechrau ac ar ddiwedd y dydd.

**Lluniwyd gan Lywodraeth Cymru**
**CYMRU.LLYW/CODTEITHIO**

Dylai'r Cod fod yn rhan o bolisïau ymddygiad ysgol a gellir ymdrin ag unrhyw gamymddwyn ar y siwrne i ac o'r ysgol dan bolisïau ymddygiad ysgolion unigol neu drwy orfodi'r Cod neu, mewn achosion difrifol iawn, gall yr heddlu ymdrin â'r mater.

Dylai rhieni dysgwyr sicrhau bod eu plant yn ymwybodol o'r Cod ac yn ei ddeall. Mae angen i rieni a dysgwyr fod yn ymwybodol o'r goblygiadau os nad yw dysgwr yn ymlynu wrth y Cod.

**Gall awdurdod lleol dynnu hawl unigolyn i gludiant am ddim yn ôl, neu gallai ei ysgol roi cosb disgyblu i'r dysgwr. Os caiff cludiant ei dynnu'n ôl, cyfrifoldeb rhieni'r dysgwr yw trefnu cludiant addas i ac o'r safle dysgu.**

Mae hefyd yn bwysig bod rhieni'n ymwybodol sut i hysbysu ynghylch ymddygiad gwael sy'n effeithio ar ddiogelwch a lles eu plentyn – er enghraifft, mewn achosion lle mae bwlio'n digwydd.

Gellir gofyn i rieni lofnodi Contractau Ymddygiad wrth Deithio. Contractau rhwng dysgwyr, rhieni, gweithredwyr cludiant ac awdurdodau lleol yw'r rhain. Maent wedi'u bwriadu i feithrin ymdeimlad o gydgyfrifoldeb am sicrhau diogelwch ac i wella diogelwch ar y siwrne rhwng y cartref a'r ysgol ar gludiant a neilltuwyd ar gyfer dysgwyr. Maent yn nodi pa ymddygiad a ddisgwylir gan bawb, gan gynnwys eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Mae rhieni a dysgwyr sy'n cael cludiant a neilltuwyd ar gyfer dysgwyr gan yr awdurdod lleol yn llofnodi'r contract i ddatgan y byddant yn cydymffurfio â'r Cod a'r Contract ac y gallai methu â gwneud hynny arwain at dynnu cludiant yn ôl. Mae awdurdodau lleol a gweithredwyr cludiant, yn eu tro, yn llofnodi'r contractau i gadarnhau'r camau gweithredu y byddant yn eu cymryd i sicrhau diogelwch ar y siwrne rhwng y cartref a'r ysgol

**Mae gan rieni nifer o rolau**

- Helpu eu plant i ddeall y Cod
- Helpu'r plant i hysbysu ynghylch digwyddiadau
- Annog eu plant i gydymffurfio â'r Cod er mwyn sicrhau bod cludiant rhwng y cartref a'r ysgol yn ddiogel i bawb
- Bod yn ymwybodol o'r sancsiynau os torrir y Cod, gan gynnwys tynnu cludiant i ac o'r ysgol yn ôl a mesurau eraill y gall ysgol eu cymryd os torrir polisi ymddygiad yr ysgol
- Y rhieni sy'n gyfrifol yn gyfreithiol am bresenoldeb parhaus y dysgwr yn yr ysgol os tynnir y trefniadau cludiant yn ôl
- Cydweithredu gyda sefydliadau addysgol, gweithredwyr cludiant ac awdurdodau lleol
- Ymlynu wrth Gontractau Ymddygiad wrth Deithio a lofnodwyd
- Sicrhau bod y dysgwr yn deall y gofyniad i wisgo gwregys diogelwch

## Sancsiynau

Os ymchwiliwyd i ddigwyddiad yr hysbyswyd yn ei gylch ac os penderfynwyd fod dysgwr wedi torri'r Cod, gall yr awdurdod lleol dynnu'r cludiant y mae'n ei ddarparu'n ôl. Cyn y gwneir penderfyniad i dynnu trefniadau teithio'n ôl, bydd y dysgwr a rhieni'r dysgwr yn cael y cyfle i gyflwyno sylwadau, y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol eu hystyried. Dylai rhieni gysylltu â'r awdurdod lleol i ganfod beth yw'r broses ar gyfer cyflwyno sylwadau gan y gall fod gan bob awdurdod broses wahanol.

Lle mae'r dysgwr yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir neu nas cynhelir neu uned cyfeirio disgyblion, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori â'r ysgol ynghylch y penderfyniad i dynnu trefniadau teithio'n ôl. Mae'n rhaid rhoi hysbysiad ysgrifenedig o'r penderfyniad i dynnu cludiant ar gyfer dysgwr yn ôl i'r pennaeth o leiaf 24 awr cyn y caiff ei dynnu'n ôl gan nodi'r cyfnod pan fydd trefniadau teithio wedi'u tynnu'n ôl a'r rhesymau dros eu tynnu'n ôl.

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol roi hysbysiad ysgrifenedig bod trefniadau teithio'n cael eu tynnu'n ôl i rieni'r dysgwr o leiaf 24 awr cyn y cânt eu tynnu'n ôl gan nodi'r cyfnod pan fydd trefniadau teithio wedi'u tynnu'n ôl a'r rhesymau dros eu tynnu'n ôl.

Dylai'r awdurdod lleol barhau i ddarparu cludiant nes bod y cyfnod pan fo'r cludiant wedi'i dynnu'n ôl yn dechrau. Fodd bynnag, gall fod achlysuron pan fo'n amhriodol i'r dysgwr barhau i deithio i'w safle dysgu yn ei ffordd arferol, yn enwedig os yw'n achosi risg o niwed i eraill. Mewn achosion o'r fath, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol drefnu cludiant arall addas.

Rhaid i'r cyfnod pan fo trefniadau teithio wedi'u tynnu'n ôl beidio â bod yn hwy na 10 diwrnod ysgol olynol, gan gynnwys lle mae'r rhain ar ddiwedd ac ar ddechrau tymhorau ysgol gwahanol. Rhaid i'r cyfnod pan fo trefniadau teithio wedi'u tynnu'n ôl beidio â golygu bod trefniadau teithio'r dysgwr wedi'u tynnu'n ôl am fwy na 30 diwrnod yn y flwyddyn ysgol pan gânt eu tynnu'n ôl.

Gall yr awdurdod lleol a'r ysgol benderfynu ei bod yn fwy priodol gosod sancsiynau dan bolisi ymddygiad yr ysgol. Ar y cyfan ni ddylid gosod sancsiynau ar ddysgwr am ddigwyddiad ar gludiant ar gyfer dysgwyr dan y Cod a pholisi ymddygiad yr ysgol.

Wrth ystyried a yw rhieni'r dysgwr yn gallu mynd ati'n rhesymol i wneud trefniadau eraill, dylid cydnabod y byddai tynnu trefniadau teithio ar gyfer dysgwr yn ôl ar y cyfan yn achosi anghyfleustra i rieni a dysgwyr. Nid yw anghyfleustra ynddo'i hun yn cael ei ystyried yn rheswm digonol dros beidio â thynnu cludiant yn ôl.

Nid oes proses apelio statudol ar gyfer penderfyniad i dynnu cludiant yn ôl gan yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, dylid trefnu bod gweithdrefnau cwynion awdurdodau lleol a pholisïau disgyblu sefydliadau addysgol ar gael i ddysgwyr a rhieni.

OGL © Hawlfraint y Goron 2017 WG32099